(SYLWCH: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EI GADARNHAU GAN Y CYD-BWYLLGOR CYSGODOL YN EI GYFARFOD NESAF)

Pecyn Dogfennau

PARTNERIAETH

Cyd-Bwyllgor Partneriaeth

Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 11.30 yb

CADEIRYDD: Y Cynghorydd G. Davies, yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, (Cyngor Sir Caerfyrddin) - Aelod â Phleidlais

Aelodau â Phleidlais	
Y Cynghorydd Robert Smith	Yr Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Abertawe)
Y Cynghorydd Guy Woodham	Yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, (Cyngor Sir Penfro)
Y Prif Weithredwr	
Mr Martin Nicholls	Cyngor Abertawe (Prif Weithredwr Arweiniol)
Cyfarwyddwyr Addysg	
Mr Steven Richards-Downes	Cyngor Sir Penfro – Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol
Ms. Helen Morgan-Rees	Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Y Cyfarwyddwr Arweiniol)
Swyddogion	
Mr Ian Altman	Swyddog Arweiniol Partneriaeth
Mr Steve Murphy	Swyddog Monitro (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Mr Matthew Holder	Pennaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Mrs Sarah Edwards	Dirprwy Swyddog A151 (Cyngor Sir Penfro)
Mr Jon Haswell	Swyddog A151 (Cyngor Sir Penfro)
Ms Elin Forsyth	Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Ms Carys Bates	Uwch-archwilydd (Archwilio Cymru)
Mr Jeremy Saunders	Rheolwr Archwilio (Archwilio Cymru)
Miss Emma Bryer	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd, cymryd nodiadau)
Mrs. Siwan Rees	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)
Mr. Martin Runeckles	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwe-ddarlledu)
Sylwedydd	
Y Cynghorydd Lyndon Jones	Cadeirydd Grŵp Craffu'r Cynghorwyr

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Darren Price (Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Dinas Abertawe), y Cynghorydd Jon Harvey (Cyngor Sir Penfro), William Bramble (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro), Wendy Walters (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin), Gareth Morgans (Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Caerfyrddin), Keren Newby-Jones (Estyn), Alex Ingram (Llywodraeth Cymru).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD CYD BWYLLGOR Y PARTNERIAETH A GYNHALWYD AR Y 2 CHWEFROR 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Partneriaeth a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024 gan eu bod yn gywir.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD CYD BWYLLGOR ARBENNIG PARTNERIAETH A GYNHALWYD AR Y 19 EBRILL 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod arbennig Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2024 gan eu bod yn gywir.

5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION

Nid oedd dim materion yn codi o'r Cofnodion.

6. LLYTHYR GAN GADEIRYDD GRWP CYNGHORWYR CRAFFU PARTNERIAETH

Derbyniodd y Cydbwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth yn adlewyrchu ar y sylwadau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp ar 26 Hydref 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y llythyr, fel sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

7. CYNLLUN ARCHWILIO ARCHWILIO CYMRU 2023 PARTNERIAETH

Cafodd y Cyd-bwyllgor Gynllun Archwilio Cymru 2023 ar gyfer Partneriaeth, oedd yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan Archwilio Cymru wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Roedd y cynllun yn nodi:

- Materoldeb wladwriaethol ariannol
- Risgiau ariannol sylweddol

- Meysydd ffocws
- Amserlen archwilio datganiadau ariannol
- Swyddogaethau archwilio statudol
- Tîm ffioedd ac archwilio
- Ansawdd archwilio

Nodwyd bod cynllunio archwilio wedi nodi risg sylweddol mewn datganiad ariannol – Rheolwyr yn diystyru rheolaethau. Nodwyd meysydd eraill o ffocws archwilio fel Datgeliadau gan Bartïon Cysylltiedig a thaliadau uwch-swyddogion a sicrhau ansawdd wrth gynhyrchu cyfrifon drafft 2022/23.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Archwilio Archwilio Cymru 2023.

8. YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHAI HYNNY SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor yr ymateb i Archwilio Cymru o ran "Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli" ar gyfer 2022-23.

Mae'n ofynnol i Archwilio Cymru gynnal ei archwiliad ariannol yn unol â'r gofynion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn flynyddol. Mae'r ystyriaethau yn berthnasol i uwch-reolwyr Partneriaeth a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sef, at ddibenion archwilio'r datganiadau ariannol, Cyd-bwyllgor Partneriaeth.

Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23, fel y'i nodir yn yr adroddiad.

9. DATGANIAD CYFRIFON PARTNERIAETH AR GYFER 2022-23

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Datganiad Cyfrifon Partneriaeth ar gyfer 2022-23 ac Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru a Barn Archwilio Cymru (ISA 260).

Cyfanswm gwariant gros Partneriaeth ar gyfer 2022-23 oedd £49.820m, a oedd yn cynnwys £41.434m o grantiau a drosglwyddwyd yn uniongyrchol i'r tri Awdurdod Lleol cyfansoddol.

Nodwyd bod Cyd-bwyllgor Partneriaeth wedi derbyn dau adroddiad monitro cyllideb a diweddariadau ariannol ar 29 Ebrill 2022 a 3 Chwefror 2023 a'u bod yn cael eu diweddaru ar adnoddau grant ychwanegol wrth iddynt ddod ar gael. Cymeradwyodd Cyd-bwyllgor Partneriaeth y Gyllideb ar gyfer 2023-24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig Drafft ar gyfer 2023-24 i 2026-27 yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod:-

9.1 Datganiad Cyfrifon Partneriaeth ar gyfer 2022-23 yn cael ei gymeradwyo.

9.2 Datganiad Cyfrifon ERW ar gyfer 2022/23 yn cael ei lofnodi gan Swyddog A151 Partneriaeth a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth.

10. ALLDRO ARIANNOL PARTNERIAETH 2023-24

Cafodd y Cyd-bwyllgor alldro ariannol ar gyfer 2023-24 a oedd yn cynnwys:-

- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Alldro 2023-24
- Incwm Grant ar gyfer 2023-24
- Risgiau a Chyfleoedd
- Cronfeydd wrth gefn

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Alldro Adroddiad Ariannol 2023-24.

11. CYLLIDEB DDRAFFT DDIWYGIEDIG PARTNERIAETH AR GYFER 2024-25

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyllideb ddrafft ddiwygiedig Partneriaeth ar gyfer 2024-25 i'w hystyried a'i chymeradwyo.

Roedd cyllideb ddrafft ddiwygiedig Partneriaeth ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:

- Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG)
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Rhagdybiaethau ac Amcangyfrifon
- Cyllideb Ddrafft Ddiwygiedig ar gyfer 2024-25
- Balans Gweithio a Chronfeydd wrth Gefn
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig Drafft 2025-26 i 2027-28
- Risgiau a Chyfleoedd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod :-

11.1 y Gyllideb Ddrafft ddiwygiedig ar gyfer 2024-25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28 yn cael eu cymeradwyo.

11.2 y cyfraniad diwygiedig o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2024-25 yn cael ei gymeradwyo.

12. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2023-24 PARTNERIAETH

Cafodd y Cyd-bwyllgor Adroddiad Archwilio Blynyddol Partneriaeth 2023-24 i'w gymeradwyo.

Mae'r adolygiad Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd bod gan Bartneriaeth drefniadau llywodraethu digonol, rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol a rheoli risg ar waith, sy'n gweithredu'n effeithiol ac yn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion.

Roedd y Cwmpas Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24 yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

- Trefniadau llywodraethu, gan gynnwys cydymffurfio â'r Cytundeb Cyfreithiol; Amserlen Cyfarfodydd, Blaenraglen Waith a Mynychu Cyfarfodydd; Côd Llywodraethu Corfforaethol; a Phrotocol Gwneud Penderfyniadau a Chofnod o Benderfyniadau.
- Cynllun Busnes, gan gynnwys Cymeradwyaeth a Gweithredu; Amcanion Cynllun Busnes a Chostau; a'r Trefniadau Monitro Cynllun Busnes ac Adroddiadau Cynnydd.
- Trefniadau Rheoli Ariannol, gan gynnwys Rheoli a Monitro Cyllidebol; Defnydd o Gyfnodolion; a Chynaliadwyedd Ariannol.
- Rheoli Grantiau, gan gynnwys Trefniadau ar gyfer Defnydd, Monitro a Rheoli Cyllid Grant a gedwir gan Partneriaeth.
- Trefniadau Rheoli Risg, gan gynnwys Monitro Cofrestr Risg a Methodoleg Sgorio Risg

Nodwyd bod adroddiad Archwilio Mewnol wedi pennu sgôr 'rhesymol' ar gyfer sicrwydd archwilio; sy'n golygu bod system gadarn o lywodraethu, rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol a rheoli risg ar waith. Nodwyd rhai materion, diffyg cydymffurfio neu gyfle i wella a allai beryglu cyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd.

Amlygodd yr adroddiad dri argymhelliad allweddol i gryfhau'r trefniadau presennol ac roedd y rheolwyr wedi derbyn yr argymhellion hyn. Bydd Archwilio Mewnol yn sicrhau bod yr argymhellion wedi'u gweithredu yn ystod 2024-24.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2023-24.

13. BARN SICRWYDD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL PARTNERIAETH 2023-24

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth ar y farn sicrwydd flynyddol ynghylch effeithlonrwydd Trefniadau Llywodraethu, Rheoli Mewnol, Rheoli Risgiau a Rheolaeth Ariannol Partneriaeth ar gyfer 2023-24.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi barn sicrwydd flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth 2023-24.

14. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL PARTNERIAETH 2023-24

Trafododd y Cyd-bwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu Partneriaeth ar gyfer 2023-24.

Rhoddodd yr adolygiad Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd 'rhesymol' ar gyfer digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a rheoli ariannol sydd ar waith. Roedd meysydd i'w gwella ymhellach wedi'u cynnwys yn y Blaenoriaethau ar gyfer Gwella o Gynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24.

Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Partneriaeth yn cynnwys dwy Flaenoriaeth ar gyfer Gwella gan sicrhau cynnydd camau gweithredu arfaethedig fel rhan o'r adolygiad Archwilio Mewnol Blynyddol o Bartneriaeth ar gyfer 2024-25.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Partneriaeth am 2023-24.

15. TROSGLWYDDO PRYDLES SWYDDFEYDD AR GYFER STAFF PARTNERIAETH O GYNGOR SIR POWYS I GYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried diweddariad ar gwblhau'r gwaith o drosglwyddo prydles o Bowys i Sir Gaerfyrddin gan olygu bod unrhyw rwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chytundeb cyfreithiol ERW yn dod i ben.

Nodwyd y byddai'r cytundeb, ar ôl ei gwblhau, yn cael ei gyflwyno i gabinetau'r ddau Gyngor i'w gymeradwyo, ac y byddai'n cael ei gymeradwyo gan Gyd-bwyllgor Partneriaeth ar ôl iddo gael ei sefydlu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod:-

15.1 bod trosglwyddo prydles swyddfeydd yn Y Llwyfan, Caerfyrddin yn golygu bod materion yn gyfreithiol yn dod i ben i Bowys o ran costau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r deiliad prydles o fewn cytundeb hanesyddol ERW. Bod yr holl gostau a'r rhwymedigaethau ar gyfer prydles swyddfeydd staff Partneriaeth yn cael eu cynnwys o fewn cyllideb Partneriaeth 2024-2025 a'i bod yn cael ei nodi bod Sir Gaerfyrddin yn gweithredu fel y deiliad prydles ar gyfer Partneriaeth.

15.2 bod maint y swyddfa'n cael ei leihau yn unol â'r gostyngiad yn nifer y staff pan adnewyddir y brydles nesaf ym mis Hydref 2024.

16. DIWEDDARIAD STAFFIO

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried diweddariad a throsolwg o'r amserlen a'r rhesymeg ar gyfer newid yn ogystal â throsolwg o'r strwythur staffio o fis Medi 2024.

Nodwyd bod y rhesymeg dros ailstrwythuro staffio Partneriaeth wedi'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ym mis Ebrill 2024 ac y cytunwyd ar y dyddiadau allweddol canlynol fel rhan o'r broses:

- 23 Ebrill – dechrau ymgysylltu â staff
- 8 Mai – ymgynghoriad yn dod i ben
- 14 Mai – adborth o'r ymgynghoriad
- 21/22 Mai – cyfweliadau
- 1 Medi – gweithredu'r strwythur newydd

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, ychwanegwyd tair swydd ychwanegol i'r strwythur i ddarparu cefnogaeth gan Ymgynghorydd Arweiniol yn ogystal â dau swyddog i gwmpasu cefnogaeth i'r Gymraeg hyd at gymwysterau. Cytunwyd ar yr ychwanegiadau hyn i'r strwythur gan y Grŵp Strategol ac i'w hariannu drwy gyfraniad ychwanegol gan yr LAEG. Nodwyd y byddai'r ailstrwythuro hwn yn cynrychioli gostyngiad o 32% mewn staff ar gyfer Partneriaeth o fis Medi 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Diweddariad Staffio Partneriaeth

17. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYNLLUN BUSNES MEDI 2024

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad ynghylch y meysydd allweddol canlynol:

- Adroddiad Blynyddol 2023-24 – crynodeb o ddarpariaeth gwasanaethau.
- Arolwg Hyrwyddwr Net – ymatebion gan fynychwyr mewn dysgu proffesiynol a'r rhai sy'n derbyn cefnogaeth bwrpasol.
- Cynllun Busnes Drafft Medi 2024 – yn adlewyrchu blaenoriaethau Partneriaeth o fis Medi 2024.

Nodwyd mai dwy flaenoriaeth cylch y cynllun busnes oedd:

- Cefnogi pob ysgol a lleoliad addysgol i ddylunio a darparu eu darpariaeth eu hunain o ansawdd uchel mewn pynciau a gomisiynwyd/Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Darparu llwybrau gyrfa i arweinwyr, ymarferwyr a staff cymorth ar bob lefel o'r system.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r diweddariad a bod Cynllun Busnes Partneriaeth ar gyfer 2024-25 yn cael ei gymeradwyo.

18. COFRESTRE RISG

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor broffil risg cyffredinol y rhanbarth. Amlinellodd yr adroddiad broffil risg cyffredinol y rhanbarth a oedd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu argymhellion Archwilio 2022-23 a hefyd i ystyried bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi dod i law Partneriaeth, gan gynnwys yr holl ddyfarniadau amrywiad disgwyliedig.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod y map gwres yn dangos mai'r sgôr risg oedd Tebygolrwydd Canolig ac Effaith Uchel oherwydd:

- Diffyg Eglurder o ran swyddogaethau Partneriaeth
- Canfuwyd nad oedd Partneriaeth yn darparu gwerth am arian

Nodwyd y byddai'r gofrestr yn cael ei diweddaru ar gyfer mis Medi 2024 yn unol â chyflwyno'r Cynllun Busnes newydd yn unol â chyllid grantiau addysg awdurdod lleol ac y byddai hyn yn cael ei gyflwyno yng Nghyd-bwyllgor yr hydref.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a'r proffil risg.

19. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL a CHYNLLUN DIRPRWYO

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad Côd Llywodraethu Corfforaethol a'r Cynllun Dirprwyo.

Rhannwyd yr adroddiad yn Egwyddorion Craidd fel a ganlyn:

- Egwyddor Graidd A: Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith.
- Egwyddor Graidd B: Sicrhau ein bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid.
- Egwyddor graidd C: Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy.
- Egwyddor Graidd D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl.
- Egwyddor Graidd E: Datblygu gallu Partneriaeth, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sydd ynddo.
- Egwyddor Graidd F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
- Egwyddor Graidd G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Côd Llywodraethu Corfforaethol a'r Cynllun Dirprwyo fel y manylir yn yr adroddiad.

20. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTERIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill y dylid eu hystyried fel mater o frys.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**